LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Rhanbarth Llais Gwent – Adroddiad ar gyfer Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

## Tachwedd 2025



I hysbysu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am faterion pryder cyfredol, ac arsylwadau cadarnhaol, neu adborth cyhoeddus y mae Rhanbarth Llais Gwent yn mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Os hoffech chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.


01633 838516

ymholiadaugwent@llaiscymru.org

Rhanbarth Llais Gwent,

Raglan House,

William Brown Close

Cwmbran

NP44 3AB

www.llaiswales.org

www.llaiscymru.org

Am Llais 4

Cyflwyniad 5

Sgwrs Genedlaethol: Cynllun Strategol Llais 2024-27 6

Gweithgareddau ac adborth lleol 'Gwent' 7

- Gwasanaethau Eiriolaeth Gwent 7
- Ymgysylltu yng Ngwent (Medi i Hydref) 8
- Sbotolau ar Newid Gwasanaeth – Ailgyflunio Gwasanaethau Strôc 12
- Gweithgareddau i Ddod (Tachwedd i Ragfyr) 12

Gwaith Cenedlaethol 14

- Gofal Brys yr Un Diwrnod 14

Diolch 15

- Adborth 15
- Manylion cyswllt 15

# Am Llais

Rydym yn credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod penderfynwyr yn defnyddio eich adborth i lunio eich gwasanaethau.


Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.



# Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw hysbysu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am faterion pryder cyfredol ac arsylwadau cadarnhaol, ac adborth y cyhoedd y mae Rhanbarth Llais Gwent yn mynd i'r afael ag ef mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Llais yn parhau i weithio o ran ymgysylltu â'r boblogaeth, craffu, a chynnig her annibynnol i'r GIG a gofal cymdeithasol, i fonitro ac ystyried newidiadau i wasanaethau arferol a brys. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion annibynnol.

# Sgwrs Genedlaethol: Cynllun Strategol Llais 2024-2027

Mae gennym ni ein cynllun strategol cenedlaethol cyntaf nawr. Mae'r cynllun hwn wedi'i greu gan ddefnyddio'r hyn a ddywedwyd wrthym gan bobl Cymru, gan ein staff a'n gwirfoddolwyr a chyrff a grwpiau eraill rydym yn gweithio gyda nhw.

Wrth greu'r cynllun hwn, roedden ni'n meddwl am ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol megis Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu 2020, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Safonau'r Iaith Gymraeg 2016, y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd, y Ddyletswydd Sector Cyhoeddus, a chynlluniau ac ymrwymiadau cenedlaethol megis Cynllun Gweithredu Cymru LGBTQ+ a Gwrth-hiliol, yn ogystal â'n llythyr cylch gwaith.

Gan adeiladu ar yr hyn a ddysgom yn ein blwyddyn gyntaf, rydym wedi grwpio pethau i bum prif flaenoriaeth:[1]

**1)** Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

**2)** Gwthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb

**3)** Cydweithio'n Well

**4)** Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw

**5)** Tyfu a gwella fel sefydliad.

---

[1] https://www.llaiscymru.org/newyddion-ac-adroddiadau/adroddiadau/sgwrs-genedlaethol-cynllun-strategol-llais-2024-2027


# Rhanbarth Llais Gwent

## Gweithgareddau lleol ac adborth:

### 1. Gwasanaeth Eiriolaeth Gwent

Roedd 96 o gysylltiadau rhwng mis Medi a mis Hydref. Roedd 25 yn bryderon ffurfiol ac roedd 71 yn ymholiadau yr oedd angen eu datrys yn gynnar neu lle'r ydym yn aros am ganiatâd.

O'r 96 o gysylltiadau, mae 38 bellach wedi'u datrys ac mae 58 yn dal yn fyw.




**Sylwadau Allweddol:**

- **Gwasanaethau Gofal Eilaidd** a gafodd y nifer uchaf o gysylltiadau (28)**,** gyda phryderon yn cynnwys canslo llawdriniaethau,amseroedd aros gormodol,cyfathrebu aneglur a methu â gwneud diagnosis.
- Roedd **Gwasanaethau Meddygon Teulu** yn gyfrifol am 20 o gwynion**,** gyda phroblemau'n codi dro ar ôl tro fel atgyfeiriadau heb gael eu hanfon,methu â gwneud diagnosis,presgripsiynau heb gael eu gweithredu, a phryderon ynghylch ymddygiad staff .

- Derbyniodd **Gwasanaethau Iechyd Meddwl** (10)  o gwynion yn ymwneud â**,** diffyg gofal a chefnogaeth yn dilyn rhyddhau,oedi wrth gael mynediad at asesiadau, ac ymateb annigonol i argyfwng.
- Roedd **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol** (16) yn cynnwys pryderon ynghylch safonau gofal cartrefi gofal**,** diogelu ,ymddygiad gweithwyr cymdeithasol, a diffyg pecynnau gofal rhyddhau.

## 2. Ymgysylltu yng Ngwent (Medi – Hydref)

Drwy gydol mis Medi a mis Hydref, canolbwyntiodd Llais ei ymgysylltiad ar gasglu mewnwelediadau pobl ar gyfer ein prosiect cenedlaethol, Yr Iechyd a'r Gofal Cymdeithasol a Garem. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethon ni siarad â 366 o bobl drwy allgymorth cymunedol, digwyddiadau fforwm cyhoeddus, a Llais Lleol gan sicrhau ein bod ni'n bresennol yn y gymuned ac yn gwrando'n weithredol ar eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol.

## Mewnwelediadau Cymunedol… yr hyn a glywsom a'r hyn a wnaethom:

### Fforwm Cyhoeddus

Hwylusodd Llais fforwm cyhoeddus a oedd yn canolbwyntio ar gynlluniau dyfodol BIPAB ar gyfer ystadau a datblygiadau cyfalaf, ac roedd Ysbytai St Woolos a Nevill Hall yn bynciau allweddol o ddiddordeb i bobl a chymunedau yng Ngwent - gan adeiladu ar ymgysylltiad 12 wythnos cynharach y Bwrdd Iechyd ar ysbytai cyffredinol lleol gwell.

Dangosodd y fforwm hwn werth cyfranogiad cymunedol parhaus wrth lunio gwasanaethau iechyd lleol. Drwy ddarparu llwyfan i bobl rannu eu barn a gofyn cwestiynau'n uniongyrchol, sicrhaodd fod lleisiau pobl a chymunedau'n parhau i fod yn ganolog i benderfyniadau ynghylch dyfodol eu hysbytai a'u seilwaith gofal iechyd.

### Gofal Cymdeithasol – Unigolion a theuluoedd sy'n byw gyda dementia

Ymunodd Llais â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ym Mlaina i siarad â phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd i wrando a chlywed sut olwg a theimlad sydd ar ofal a chymorth iddyn nhw a sut olwg a theimlad fyddai ar ofal a chymorth gwell.

Roedd yn amlwg o'r sgyrsiau hyn fod angen mwy o gefnogaeth, gyda llawer bron â bod ar fin torri. Rhannodd gofalwyr eu bod yn aml yn

teimlo'n anweledig, yn unig ac ar goll ac yn ansicr ynghylch pa gymorth sydd ar gael. Nid yw llawer eisiau bod yn faich ar eraill, hyd yn oed pan maen nhw'n cael trafferth. Mae'r mewnwelediadau hyn yn dangos pa mor bwysig yw gwella mynediad at ofal a darparu gwell cefnogaeth emosiynol ac ymarferol.

*"Cafodd fy ngŵr ddiagnosis o ddementia. Am ddwy flynedd, **roeddwn i'n teimlo'n flin—nid wrtho ef, ond at y diagnosis**. Dw i dal yn ceisio dod i delerau ag e. **Dydw i ddim eisiau i'w fywyd ddod i ben oherwydd dementia.** Os ydych chi'n ymddangos yn ymdopi, mae gwasanaethau'n cymryd yn ganiataol nad oes angen help arnoch chi."*

Mae ein hymgysylltiad diweddar â gofalwyr ac unigolion yn cyd-fynd yn agos â'r darlun cenedlaethol a amlygwyd yn adroddiad"State of Caring" Carers UK. Mae'r lleisiau rydyn ni wedi'u casglu'n lleol yng Ngwent yn adlewyrchu llawer o'r un pryderon a godwyd yn genedlaethol.

**Stori Mrs A**

Cafodd fy ngŵr strôc flwyddyn yn ôl, ac rwy'n teimlo fel ei fod wedi cael ei siomi. Roedd ganddo therapydd iaith a lleferydd a ddaeth yn wythnosol, ond ar ôl i hynny ddod i ben, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gefnogaeth na dilyniant pellach. Rwy'n ei helpu gyda'i leferydd adref, ond rwy'n credu y byddai'n elwa o fwy o therapi. Dydw i ddim yn gwybod ble i fynd am gymorth. Mae fy nheulu'n ymweld, ond dydw i ddim eisiau bod yn faich arnyn nhw—mae ganddyn nhw eu bywydau eu hunain.

Mae ein hymateb diweddar i ymchwiliad y Senedd i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl yn adleisio llawer o themâu allweddol yr adroddiad:

- **Straen ariannol**: Gofalwyr yn torri'n ôl ar hanfodion fel bwyd a gwresogi, gyda llawer yn syrthio i ddyled neu dlodi.
- **Iechyd meddwl a lles**: Mae gofalwyr yn adrodd am lefelau uchel o straen, pryder ac unigedd. Mae Llais wedi clywed gan ofalwyr sy'n teimlo'n "anweledig" ac "ar fin torri".
- **Mynediad at gefnogaeth**: Mae arosiadau hir am asesiadau, gofal seibiant anghyson, a chyfathrebu gwael gan wasanaethau yn rhwystrau cyffredin.
- **Adnabyddiaeth a llais**: Mae gofalwyr eisiau cael eu gweld fel partneriaid mewn gofal, cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, a

chael eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu hanghenion gwirioneddol.

Byddwn yn parhau i ehangu ein sgyrsiau drwy barhau i ymgysylltu â gofalwyr yng Ngwent. Byddwn yn parhau i wrando ar ofalwyr a'r rhai sy'n defnyddio gofal cymdeithasol er mwyn deall eu heriau'n well, yn enwedig o ran cefnogaeth emosiynol, mynediad at wasanaethau a chyfathrebu. Bydd adborth yn ein helpu i archwilio pa gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a lle mae angen gwelliannau.

Bydd Llais yn:

Parhau i chwyddo lleisiau, gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd, a gwthio am gefnogaeth fwy hygyrch, tosturiol a chydlynol i ofalwyr ledled Gwent.

Cymerodd darparwyr, perchnogion, rheolwyr a rhanddeiliaid cartrefi gofal Gwent ran yn ein prosiect cenedlaethol, *Y Gofal Iechyd a Chymdeithasol a Garem*. Ymhlith y themâu a'r mewnwelediadau allweddol a rannwyd roedd:

Mae pawb yn haeddu…

Mae cael urddas; teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a theimlo'r bywyd maen nhw wedi'i arwain, yn golygu rhywbeth.

Dewis – Yr hawl i chwarae rhan weithredol ym mhob penderfyniad.

Teimlo'n cael eich caru, eich parchu a'ch diogelu… Llawenydd, a chael eich gwrando.

I gael eich trin fel unigolyn â charedigrwydd, gofal a thrugaredd.

Mae profiadau gofal gwych yn edrych fel…

Hawdd siarad â nhw, gwenu, heddychlon, ymddiriedaeth, parch, diogel, hapusrwydd, cynnes, gwybod eu hawliau

Beth sydd angen newid ar draws iechyd a gofal cymdeithasol…

Mae angen iddo deimlo a bod yn gartref iddyn nhw.

Cael llais a bod yn rhan o ddylunio eu pecyn gofal eu hunain.

Mae'n gweithio i'r boblogaeth a dim cystadleuaeth am adnoddau.

Cyfathrebu gofal ynghylch rhyddhau o'r ysbyty.

Bydd Llais yn:

Partneru â chartrefi gofal i chwyddo lleisiau preswylwyr, teuluoedd a staff – gan lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Gwent.

## Mewnwelediadau gan Bobl Ifanc

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu ehangach, fe wnaethon ni fynychu Ffeiriau Glasfyfyrwyr Coleg Gwent lle rhannodd pobl ifanc eu barn ar yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw wrth gael mynediad at wasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol. Mae eu mewnwelediadau yn ein helpu i ddeall y blaenoriaethau a'r heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu a byddant yn llywio sut rydym yn llunio sgyrsiau yn y dyfodol.

*"I gael eich gwrando, eich deall a'ch parchu"*

*"Teimlo fel pe bai gennych lais neu le i ddweud rhywbeth heb deimlo eich bod yn cael eich barnu"*

*"Dylai rhywun fod yno i'ch helpu chi a dweud wrthych chi ei fod yn iawn 😊"*

Bydd Llais yn:

Cael mewnwelediad dyfnach i ddeall beth sy'n bwysig i bobl ifanc, sut olwg sydd ar ofal da a sut y gall eu lleisiau lunio gwasanaethau'r dyfodol.

## 3. Sbotolau ar Newid Gwasanaeth – Ailgyflunio Gwasanaethau Strôc

Mae Llais yn falch o weld cefnogaeth i'r egwyddorion arfaethedig yn yr ymgysylltiad diweddar ar ddyfodol Nevill Hall ac ysbytai cyffredinol lleol gwell. Rydym yn cydnabod ac yn argymell y bydd ymgysylltu mwy manwl am gyfnod o 12 wythnos yn bwysig ar gyfer newidiadau mawr i wasanaethau, fel adsefydlu ar ôl strôc. Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos â BIPAB i sicrhau bod unigolion a chymunedau yn parhau i gael llais ystyrlon wrth lunio datblygiadau yn y dyfodol ar draws gwasanaethau ysbytai lleol.

## 4. Gweithgareddau i Ddod: Tachwedd a Rhagfyr

**Trafodaeth bwrdd crwn:**

Mae Llais yn dod â lleisiau allweddol ynghyd ar gyfer trafodaeth ford gron i archwilio'r rhwystrau y mae pobl sy'n profi digartrefedd yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n gyfle i glywed profiadau bywyd, rhannu mewnwelediadau, tynnu sylw at arfer da, a gweithio gyda'n gilydd i sbarduno newid go iawn. Ein nod yw adeiladu gwasanaethau cryfach a mwy cynhwysol sy'n diwallu anghenion pawb yn ein cymunedau.

Cysylltwch â ymholiadaugwent@llaiscymru.org am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan.

**Llais Lleol**

Rhwng 3ydd a 28ain Tachwedd, bydd Llais yn canolbwyntio gweithgareddau ymgysylltu ledled Caerffili, gan gynllunio i gwrdd â phobl lle maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser. Drwy wrando ar brofiadau go iawn o gael mynediad at ofal iechyd a gofal cymdeithasol, ein nod yw creu darlun cliriach o'r hyn sydd bwysicaf. Mae'r dull hwn yn ein dwyn yn agosach at gymunedau ac yn helpu i lunio gwasanaethau sy'n adlewyrchu eu hanghenion mewn gwirionedd. I fod yn rhan o'n Taith Llais Lleol, dilynwch ni ar Facebook @LlaisGwent

**Gweithio ar y cyd â Gwasanaeth Gwaed Cymru:**

Mae Llais yn cydweithio â Gwasanaeth Gwaed Cymru i gysylltu â rhoddwyr yn ystod sesiynau rhoi gwaed sydd ar ddod. Mae'r sgyrsiau

anffurfiol, wyneb yn wyneb hyn yn ffordd bwerus o glywed straeon go iawn a safbwyntiau gonest am iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddwn ni yn:

- Trecenydd ar 4ydd a 25ain Tachwedd
- Gwesty Parkway, Cwmbrân ar 20fed Tachwedd

# Gwaith Cenedlaethol

## Gofal Brys yr Un Diwrnod

**Yr hydref diwethaf, ymwelodd Llais ag unedau gofal brys ar yr un diwrnod ledled Cymru i glywed yn uniongyrchol gan bobl am eu profiadau - a datgelodd yr hyn a glywsom fylchau difrifol yn y gofal.**

Fe wnaethon ni rannu'r canfyddiadau hyn gyda Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd, gan alw am weithredu. Fe wnaethon nhw ymateb gyda diweddariadau ar waith i wella mynediad ac ansawdd.

**Rhwng 20 Hydref a 17 Tachwedd eleni, fe wnaethon ni ddychwelyd at gymunedau i ofyn: a oes unrhyw beth wedi newid?**

Cymerodd pobl ran drwy arolygon, sgyrsiau un-i-un, a sesiynau ar-lein. Bydd eu lleisiau yn ein helpu i barhau i weithio gyda gwasanaethau i sbarduno newid ystyrlon a sicrhau bod gofal brys yn diwallu anghenion y rhai sy'n dibynnu arno mewn gwirionedd.

# Diolch

Diolchwn i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd i rannu eu syniadau gyda ni.

# Adborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed beth yw eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud ein gwaith yn well yn y dyfodol.

# Manylion cyswllt

Rhanbarth Llais Gwent,
Raglan House,
Parc Busnes Llantarnam,
Cwmbran,
NP44 3AB.

Ffôn: 01633 838516
E-bost: ymholiadaugwent@llaiscymru.org
Gwefan: www.llaiscymru.org
Facebook: @LlaisGwent
trydar: Llais_cymru